Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael Â'r UE) 2019**
DYDDIAD	**16 Hydref 2019**
GAN	**Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael Â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019")

Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio/dirymu

- Rheoliadau Cemegion (Iechyd a Diogelwch) ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliadau'r Amgylchedd a Bywyd Gwyllt (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019
- Rheoliad (UE) 2019/1021 ar Lygryddion Organig Parhaus
- Rhan 4 o Reoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud y cywiriadau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod Rheoliad (UE) 2019/1021 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch llygryddion organig parhaus yn parhau mewn grym ar ôl i ni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ("UE"). Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo swyddogaethau deddfwriaethol a gweinyddol sydd wedi cael eu rhoi ar hyn o bryd i'r Comisiwn Ewropeaidd ("y Comisiwn") a'r Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd ("EHCA") i'w harfer yn lle hynny gan awdurdodau cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig ("DU"), fel y gallant gael eu harfer ar lefel genedlaethol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae Rheoliadau 2019 yn dirymu'r rheoliadau canlynol; rhan 4 o Reoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 (O.S. 2018/1405) sy'n gwneud cywiriadau i Reoliad (EC) Rhif 850/2004 ar Lygryddion Organig Parhaus sydd bellach wedi'i ddirymu; a rheoliad 2 o Reoliad yr Amgylchedd a Bywyd Gwyllt (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/473) a drosglwyddodd swyddogaethau deddfwriaethol a gynhwysir yn Rheoliad (EC) Rhif 850/2004 ynghylch Llygryddion Organig Parhaus.

Mae Rheoliadau 2019 hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Cemegion (Iechyd a Diogelwch) ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Defnydd Cyfyngedig) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Mae Rheoliadau 2019 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/HdaKby6V

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru
Mae darpariaeth yn yr OS hwn sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau o ran Cymru yn ddilyffethair ac i Weinidogion Cymru roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau o ran Cymru. Gallai swyddogaethau a drosglwyddir â chydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 11B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Gallai hyn gyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i waredu neu addasu swyddogaethau o'r fath heb geisio cydsyniad Gweinidog perthnasol Llywodraeth y DU.

Pam y rhoddwyd cydsyniad
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Bydd Rheoliadau 2019 yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol ar gyfer achosion brys a nodir ym mharagraff 5 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Yn unol â'r weithdrefn hon, gellir gwneud Rheoliadau 2019 heb fod offeryn drafft yn cael ei gosod gerbron, na'i gymeradwyo drwy benderfyniad, bob Tŷ'r Cyffredin ar yr amod bod y Gweinidog perthnasol yn datgan ei bod yn angenrheidiol gwneud y rheoliadau heb fod drafft yn cael ei osod na'i gymeradwyo oherwydd brys.